# Astudiaeth Effaith WAHWN

## Mis Ebrill - Mis Medi 2024

Fel rhan o'n Cytundeb Cyllid Amlflwyddyn gyda Chyngor Celfyddydau Cymru byddwn yn rhannu effaith ein gwaith, yn gysylltiedig â'n targedau, ar draws 6 maes blaenoriaeth. Caiff hyn ei ddiweddaru bob chwe mis.








## **Hunanasesu** - sut rydyn ni'n perfformio
## 30 Medi 2024

| | |
|---|---|
| **Iechyd Ariannol** | Rydyn ni'n dal i geisio cadarnhau incwm a enillwyd i ddiwallu ein targedau incwm. Bydd hyn yn ffocws dros y chwe mis nesaf. |
| **Iechyd Gweithredol** | Rydyn ni'n falch iawn i fod wedi cyflawni statws Elusennol ac ar y trywydd cywir neu wedi rhagori ar dargedau cyfredol. |

## Deilliannau

Creadigrwydd

Ehangu Ymgysylltiad

Y Gymraeg

Meithrin Talent

Cyfiawnder Hinsawdd

Trawsnewid

# Creadigrwydd

## Deilliannau 1.

**Rhaglen flynyddol o waith, wedi'i chyd-greu gyda rhanddeiliaid yn ecoleg y celfyddydau ac iechyd, sydd â gwerth i'r sector celfyddydau ac iechyd, a adlewyrchir yn y cynnydd yn ein haelodaeth, rhwydweithiau strategol ac adborth gan aelodau.**

Allbynnau:

- Cynhaliwyd 10 Grŵp dysgu gyda 99 yn bresennol ac 80% o adborth cadarnhaol
- 6.3% o gynnydd yn nifer yr aelodau, o 856 i 910
- 6 astudiaeth achos newydd wedi'u cyhoeddi ar y wefan

## Deilliannau 2.

**Gan gydnabod sut mae'r celfyddydau ac iechyd/llesiant yn effeithio ar holl ddinasyddion Cymru byddwn yn cynnal ac yn datblygu amrywiaeth o berthnasoedd sy'n cyfrannu at greadigrwydd sector y celfyddydau ac iechyd.**

Allbynnau:

- 4 Marchnad Iechyd Creadigol wyneb yn wyneb gyda 148 yn bresennol ar draws sector y celfyddydau ac iechyd a'r trydydd sector
- 57 o weithwyr proffesiynol o'r sector iechyd a'r trydydd sector yn dod i'r Marchnadoedd
- 65% yn nodi gwell dealltwriaeth o lwybrau atgyfeirio creadigol

## Deilliannau 3.

**Cynrychiolir ymagweddau creadigol at ddeilliannau iechyd ym mlaenoriaethau polisi cyrff statudol ac eraill, ar sail arfer gorau ehangach.**

Allbynnau:

- Rhoddwyd cymorth uniongyrchol i 26 o bobl oedd yn bresennol mewn cyfarfod rhwydwaith i ymateb i Strategaeth Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru
- Rhannwyd y strategaeth Iechyd Meddwl ddrafft ar draws pob digwyddiad a phlatfform oedd ar gael

# Ehangu Ymgysylltiad

## Deilliannau 1.

**Byddwn yn hyrwyddo democratiaeth ddiwylliannol mewn perthynas ag unigolion/cymunedau cyfranogol wrth iddynt wneud eu penderfyniadau creadigol eu hunain o ran yr hyn sy'n cyfrif fel diwylliant a sut/ble y caiff ei gyflwyno.**

Allbynnau:

- Peilota rhaglen amrywio'r gweithlu creadigol 'Camu i Mewn' wedi'i gyflawni
- 4 o fentoreion o gefndiroedd amrywiol wedi derbyn cymorth drwy gyfnod preswyl dwys, mentora a lleoliadau gwaith byw
- 1 bwrsariaeth Mynd i Weld gyda chefndir mwyafrif byd-eang

## Deilliannau 2.

**Byddwn yn meithrin talentau artistiaid yn sector y celfyddydau ac iechyd i weithio gyda chyfranogwyr sydd ag ystyriaethau cymhleth ynghylch eu gallu i ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant.**

Allbynnau:

- 2 weithdy hyfforddi Asesu Effaith ar Iechyd gyda 30 yn bresennol
- 79% o'r rhai oedd yn bresennol yn nodi y byddant yn defnyddio'r fframwaith Asesu

## Deilliannau 2.

**Meithrin hyder a gwybodaeth ymarferwyr iechyd yng Nghymru i atgyfeirio a defnyddio creadigrwydd fel ymateb i anghenion meddygol.**

Allbynnau:

- 11% o gynnydd yn y nifer o aelodau WAHWN yn y sector iechyd/trydydd sector
- 67% o weithwyr proffesiynol yn y sector iechyd/trydydd sector yn y Marchnadoedd Iechyd Creadigol yn nodi gwell gwybodaeth am asedau creadigol cymunedol.

# Y Gymraeg

## Deilliannau 1.

**Adolygu ein heffeithiolrwydd o ran y Gymraeg yn barhaus yn erbyn ein polisi (sy'n datblygu) a'n cynlluniau gweithredu blynyddol**

Allbynnau:
- 100% o negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog
- 1 cyfarfod rhwydwaith i ymarferwyr Cymraeg

## Deilliannau 2.

**Cyd-greu rhaglen waith gydag aelodau sy'n meithrin gallu sector y celfyddydau ac iechyd i gyflwyno'n ddwyieithog.**

Allbynnau:
- Dyfarnu 2 fwrsariaeth Mynd i Weld i ymarferwyr Cymraeg eu hiaith

## Deilliannau 3.

**Cyflenwi rhaglen waith wedi'i hanelu at y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fydd yn arddangos y cyflenwad o weithgarwch celfyddydau ac iechyd a'i effaith bosibl ar ddeilliannau iechyd, gofal a llesiant. Bwriad hyn yn creu galw am ddarpariaeth yn y Gymraeg.**

Allbynnau:
- 4 prosiect Cymraeg wedi'u rhannu a'u hamlygu mewn Marchnadoedd Iechyd Creadigol
- Sylw i'r Cwtsh Creadigol Cymraeg mewn ymgyrchoedd a digwyddiadau

# Cyfiawnder Hinsawdd

## Deilliannau 1.

**Datblygu Cynllun Cynaladwyedd cadarn a chynlluniau gweithredu blynyddol**

Allbynnau:
- Ar y llwybr cywir i recriwtio 1 Ymddiriedolwr ag arbenigedd ar yr hinsawdd/amgylchedd
- Cyfarfodydd rhwydwaith y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol a Chysylltedd Natur Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gweill

## Deilliannau 2.

**Gwireddu potensial gweithgareddau celfyddydau ac iechyd i gysylltu â mannau awyr agored/gwyrdd Cymru, a thrwy hynny, gydnabod y buddion ychwanegol y gellir eu cyflwyno drwy fynd i'r afael â themâu ehangach cyfiawnder hinsawdd.**

Allbynnau:
- Sylw i 2 adnodd creadigol newydd ar natur

## Deilliannau 3.

**Annog ein rhwydwaith o aelodau i ystyried eu heffaith ar yr argyfwng hinsawdd a'u cefnogi i ddatblygu eu Cynlluniau Cynaladwyedd**

Allbynnau:
- Meithrin cysylltiadau ag academyddion a rhwydweithiau ymchwil sy'n gweithio gyda Natur



# Meithrin Talent

## Deilliannau 1.

**Bod yn arweinydd cydnabyddedig ar gyfer adnabod anghenion datblygu artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n cyflenwi yn sector y celfyddydau ac iechyd.**

Allbynnau:
- 8 sefydliad yn dilyn hyfforddiant Strategaethau ar gyfer Llesiant
- 100% o adborth cadarnhaol ar yr hyfforddiant

## Deilliannau 2.

**Galluogi datblygiad a llesiant rhanddeiliaid mewnol (staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr llawrydd ac aelodau'r bwrdd) yn unol â'r ymrwymiad i fod yn sefydliad dysgu.**

Allbynnau:
- Cyhoeddi Adduned Cyd-gymorth WAHWN (gwerthoedd)
- Canfod partner ymchwil i gefnogi cynllunio a dadansoddi arolygon

## Output 3.

**Cefnogi llesiant y rhwydwaith o ymarferwyr yng Nghymru sy'n gweithio yn ecoleg y celfyddydau ac iechyd.**

Allbynnau:
- 4 ymarferydd Cymraeg wedi'u cefnogi gyda hyfforddiant ymarfer myfyriol gyda 100% yn nodi bod ganddynt strategaethau llesiant ar waith

# Trawsnewid

## Deilliannau 1.

**Cynrychioli a chynnal parch ein haelodau (rhanddeiliaid allweddol yn ecoleg Celfyddydau ac Iechyd Cymru), sy'n deall pwrpas y sefydliad, a'r effaith a gawn.**

Allbynnau:

- Systemau a phrosesau ar waith i gasglu data aelodau

## Deilliannau 2.

**Bod yn arweinydd sector yn y celfyddydau ac iechyd, gan gefnogi'r sector i ymateb yn gyfrifol i'r argyfwng presennol o ran iechyd a gofal, ac ymrwymiadau llesiant ehangach Cymru.**

Allbynnau:

- Sicrhau statws Elusennol ym mis Gorffennaf 2024
- Cynorthwyo aelodau i ymateb i ymgynghoriad Blaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru

## Deilliannau 3.

**Lleihau dibyniaeth WAHWN a'n haelodau ar gyllid cyhoeddus.**

Allbynnau:

- Cynllun codi arian WAHWN ar waith i sicrhau cyllid gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau yn y DU
- Cyllidwyr yn cyfrannu at 2 grŵp dysgu

# Cydnabyddiaethau

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Ymddiriedolwyr WAHWN
- Staff a gweithwyr llawrydd WAHWN
- Ffrindiau o WAHWN

# Cysylltwch

**info@wahwn.cymru**

www.wahwn.cymru

facebook.com/wahwn

instagram.com/wahwn

x.com/wahwn

youtube.com/wahwn

**© Wales Arts Health & Well-being Network**
WAHWN Limited is a company limited by guarantee and registered Charity.
Company Number: **14111464**
Charity No. **1209241**
Registered Address:
**34 Dewing Avenue, Manorbier, Pembrokeshire, SA70 7TS**